Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru

- Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr

Athrofa Padarn Sant (yr "Athrofa"),

Diweddariad Mawrth 2024

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol

PENNAWD ADRAN	RHIF TUDALEN
GWYBODAETH GYFFREDINOL	2
PA WYBODAETH BERSONOL SYDD GENNYM AMDANOCH?	2
TABL DEFNYDD DATA – MYFYRWYR LLAWN AMSER A RHAN-AMSER	3
TROSGLWYDDO DATA YN RHYNGWLADOL	8
PA HAWLIAU SYDD GENNYCH O DAN Y GYFRAITH DIOGELU DATA?	9
FFIOEDD SY'N DALADWY I ARFER EICH HAWLIAU	11
GWYBODAETH AM BWY YDYCH CHI Y GALLAI FOD EI HANGEN ARNOM	12
DATA PLANT	12
CYWIRDEB DATA PERSONOL	12
LLE I GAEL RHAGOR O WYBODAETH AM EICH HAWLIAU NEU I WNEUD CWYN	12
GWEFANNAU TRYDYDD PARTI	12
CYSYLLTU Â NI	13
DIWEDDARIADAU I'R HYSBYSIAD PREIFATRWYDD HWN	13

1. Gwybodaeth Gyffredinol

1.1 Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd a diogelwch eich data personol. Mae gennym systemau rheoli diogelwch gwybodaeth cadarn ar waith i ddiogelu eich data personol. Rydym yn ystyried diogelwch eich gwybodaeth o ddifrif ac wedi gweithredu mesurau diogelwch technegol a sefydliadol priodol i'w diogelu rhag unrhyw brosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn unrhyw golled, dinistr neu ddifrod damweiniol.

1.2 Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn berthnasol i ddata personol rydym yn ei brosesu pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan neu'n ei defnyddio a/neu'n mynychu cyrsiau gyda'r Athrofa. Gall datganiadau a dogfennau Polisi Preifatrwydd eraill fod yn berthnasol all-lein ac mae'r rhain ar gael ar gais, os ydynt yn berthnasol.

1.3 Ni yw'r “rheolydd data” ar gyfer y data personol rydym yn ei brosesu. Mae hyn yn golygu ein bod yn cadw data personol am, er enghraifft, ein myfyrwyr ac yn gyfrifol am benderfynu sut rydym yn storio ac yn defnyddio'r data personol hwnnw.

1.4 Fel rheolydd data, mae'n gyfreithiol-ofynnol i ni ddarparu gwybodaeth benodol i unigolion rydym yn casglu, yn cael, yn storio ac yn defnyddio data personol amdanynt. Mae'r wybodaeth honno wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon (ein “Hysbysiad Preifatrwydd”).

1.5 Mae'n bwysig eich bod yn darllen y ddogfen hon (ynghyd ag unrhyw Hysbysiadau Preifatrwydd neu ddogfennau copi caled all-lein eraill y gallwn eu rhoi i chi ar adegau penodol), fel eich bod yn ymwybodol o sut a pham rydym yn defnyddio'ch data personol a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data personol.

1.6 Mae cwmpas yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr â'r wefan sy'n ymwneud ag Athrofa Padarn Sant.

1.7 Fel Rheolydd Data, byddwn yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i gydymffurfio â GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018 a deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a Rheoliadau perthnasol eraill wrth ymdrin ag unrhyw ddata personol y gallech ei ddarparu i ni.
Rydym yn gyfrifol am sicrhau bod data:

1.7.1 Yn cael ei brosesu'n deg ac yn gyfreithlon
1.7.2 Yn cael ei brosesu at ddibenion cyfyngedig
1.7.3 Yn ddigonol, yn berthnasol ac nid yn ormodol
1.7.4 Yn gywir ac yn ddiogel;
1.7.5 Ddim yn cael ei gadw'n hirach nag sydd ei angen
1.7.6 Yn cael ei brosesu yn unol â'ch hawliau
1.7.7 Ddim yn cael ei drosglwyddo i wledydd y tu allan i'r DU heb drefniadau diogelu.
1.7.8 Mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data personol.

1.8 Ni fyddwn yn gwerthu, yn rhentu nac yn datgelu'r wybodaeth bersonol a roddwch i ni drwy'r wefan i drydydd partïon (ac eithrio fel y nodir isod) oni bai ei bod yn ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

2. Pa ddata personol sydd gennym amdanoch?

2.1 Fel myfyriwr yn yr Athrofa, byddwn yn gofyn i chi roi data personol penodol i ni pan fyddwch yn cofrestru ac wrth i chi symud ymlaen drwy eich cwrs.

2.2 Mae cyfraith diogelu data’n diogelu data personol sef, yn ei hanfod, unrhyw

wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unigolyn.

2.3 Mae math o ddata personol sy'n cael diogelwch ychwanegol oherwydd ei natur sensitif neu breifat; cyfeirir at hyn weithiau fel 'data personol categori arbennig' ac mae'n golygu data personol am hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth undeb llafur (neu ddiffyg aelodaeth), gwybodaeth am eneteg, gwybodaeth fiometrig (lle y'i defnyddir i adnabod unigolyn) a gwybodaeth am iechyd, bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn.

3. Myfyrwyr Padarn Sant - Llawn Amser a Rhan-amser - Tabl Defnydd Data

Data Personol	Sail/Seiliau Cyfreithlon	Cyfnod Cadw	Ffynhonnell Data, Defnydd Data a Rhannu Data	Canlyniadau peidio â darparu eich data
Eich enw, eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt* Eich dyddiad geni* eich rhywedd manylion eich teulu eich manylion cyswllt brys a'ch perthynas agosaf eich addysg a'ch cymwysterau* eich sgiliau a'ch profiad gwybodaeth ariannol* copïau o basbortau, fisâu a dogfennau adnabod eraill*	**Rhwymedigaeth Gyfreithiol** Monitro ymgysylltiad myfyrwyr i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion fisa a'r telerau nawdd Sicrhau cymhwystra i dderbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth y DU Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion hawl i astudio ac adnabod Cynhyrchu ystadegau at ddibenion statudol, gan gynnwys eu cyflenwi i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) **Contract** Gweinyddu eich	I sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau diogelu data a phreifatrwydd cyfreithiol, dim ond cyhyd ag y bydd ei hangen arnom at y dibenion gwreiddiol y byddwn yn cadw eich gwybodaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn golygu y byddwn yn cadw eich gwybodaeth cyhyd â'ch bod yn fyfyriwr ac am gyfnod o 6 blynedd wedi hynny yn unol â'r cyfnod cyfyngu sy'n berthnasol i hawliadau cytundebol. Rydym yn cadw gwybodaeth am Ddatganiad Cwblhau Addysg	Bydd eich data personol yn cael ei gadw gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru (wedi'i frandio fel Padarn Sant). Bydd eich data personol yn cael ei ddarparu i ni naill ai'n uniongyrchol gan ymgeiswyr a myfyrwyr neu o ffynonellau eraill megis yr Esgobaeth, Cyflogwr neu'r brifysgol achredu lle bo hynny'n berthnasol. Rydym yn defnyddio eich data personol i weinyddu eich cwrs a chofnodi cyflawniadau academaidd Cynnal ymchwiliadau yn unol â rheoliadau academaidd a chamymddwyn a gweithredu prosesau a threfniadau diogelwch, disgyblu, cwyno, diogelu a sicrhau ansawdd a allai godi mewn perthynas â chi neu eraill y gallech ddarparu gwybodaeth berthnasol mewn cysylltiad â nhw. Rhoi gofal bugeiliol a lles	Os na ddarperir eich enw a'ch manylion cyswllt, ni fyddwch yn gallu cael eich penodi fel deiliad swydd gan na fyddwn yn gallu rhoi gwybodaeth berthnasol am eich swydd i chi.

	cwrs a		i chi	

manylion cyrsiau, modiwlau, amserlenni, marciau asesu ac arholiadau ffotograffau a recordiadau fideo o'ch cofnod presenoldeb unrhyw ddata personol arall rydych yn ei rannu gyda ni, gan gynnwys ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol gwybodaeth yn ymwneud â darparu cyngor, cymorth a lles gwybodaeth a gesglir at ddibenion monitro cyfle cyfartal* unrhyw addasiad(au) rhesymol a wneir i'ch rôl neu i'ch gwaith o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010	chofnodi cyflawniadau academaidd (e.e. eich dewisiadau cwrs, arholiadau ac asesiadau, a chyhoeddi rhestrau pasio a rhaglenni graddio) Gweinyddu agweddau ariannol ar eich cofrestriad (e.e. talu ffioedd, casglu dyledion) Darparu neu gynnig cyfleusterau a gwasanaethau i fyfyrwyr (e.e. cyfleusterau cyfrifiadurol a'r Llyfrgell) Cynnal ymchwiliadau yn unol â rheoliadau academaidd a chamymddwyn Gweithredu prosesau a threfniadau diogelwch, disgyblu, cwyno, diogelu a sicrhau ansawdd. **Tasg Gyhoeddus** Ymateb i geisiadau cyfeirio Cysylltu â chi ar ôl i chi	gan gynnwys marciau modiwl am gyfnod amhenodol. Er mwyn pennu'r cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried swm, natur a sensitifrwydd y data personol, y risg bosibl o niwed o ddefnyddio neu ddatgelu eich data personol heb awdurdod, at ba ddibenion rydym yn prosesu eich data personol ac a allwn gyflawni'r dibenion hynny drwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.	Gwneud unrhyw addasiadau rhesymol i gynorthwyo eich addysg Mewn perthynas ag ymgeiswyr, anfon adroddiadau i'ch Esgobaeth Mewn achosion lle mae hawliad wedi'i ddwyn yn erbyn yr Athrofa neu os oes risg bosibl o anghydfod neu hawliad cyfreithiol, efallai y bydd angen i ni brosesu eich data personol categori arbennig lle bo'n angenrheidiol ar gyfer sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol. Efallai y bydd amgylchiadau lle mae angen i ni brosesu eich data personol categori arbennig, yn enwedig mewn perthynas â'ch iechyd, lle mae angen amddiffyn eich buddiannau (neu fuddiannau rhywun arall) ac nad ydych yn gallu rhoi eich caniatâd. Byddwn ond yn casglu gwybodaeth am gollfarnau troseddol os yw'n briodol o ystyried natur y rôl a lle gallwn wneud hynny'n gyfreithlon. Lle y bo'n briodol, byddwn yn casglu gwybodaeth am gollfarnau troseddol fel rhan o'r broses gofrestru neu efallai y byddwn yn cael gwybod am wybodaeth o'r fath yn uniongyrchol gennych chi yn ystod eich cwrs. Byddwn ond yn defnyddio gwybodaeth sy'n	

			ymwneud ag euogfarnau troseddol lle mae'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Fel arfer,	

Fideos teledu cylch cyfyng ac unrhyw wybodaeth arall a geir drwy ddulliau electronig Gwybodaeth am eich defnydd o'n systemau TG, cyfathrebu a systemau eraill Manylion eich defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â busnes megis adroddiad bwrdd dirnadaeth LinkedIn ar gyfer ymgeiswyr.	gwblhau eich cwrs am aelodaeth a digwyddiadau cyn-fyfyrwyr, datblygiadau newydd yn yr Athrofa (ar yr amod nad ydych wedi dweud wrthym nad ydych am dderbyn yr wybodaeth hon). Darparu gwybodaeth i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) at ddibenion dadansoddi ystadegol. - Gweler eu Hysbysiad(au) Preifatrwydd perthnasol yn www.hesa.ac.uk/fpn Monitro eich defnydd o'n systemau gwybodaeth a chyfathrebu. Sicrhau diogelwch rhwydwaith a gwybodaeth, gan gynnwys atal mynediad heb awdurdod at ein systemau cyfathrebu cyfrifiadurol ac electronig ac atal dosbarthu meddalwedd faleisus. Monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth.		bydd prosesu o'r fath yn angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd, sef atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon, diogelu'r cyhoedd rhag anonestrwydd, atal twyll neu amheuaeth o derfysgaeth neu wyngalchu arian. Yn llai cyffredin, efallai y byddwn yn defnyddio gwybodaeth sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol lle mae'n angenrheidiol mewn perthynas â hawliadau cyfreithiol, lle mae angen amddiffyn eich buddiannau (neu fuddiannau rhywun arall) ac nad ydych yn gallu rhoi eich caniatâd, neu lle rydych eisoes wedi cyhoeddi'r wybodaeth. Bydd eich data personol yn cael ei rannu'n fewnol ag unigolion a/neu adrannau eraill lle bo hynny'n rhesymol angenrheidiol at y dibenion prosesu a nodir yn y ddogfen hon. Er enghraifft, bydd angen rhannu peth o'ch data personol ag endidau eraill yn yr Eglwys yng Nghymru, er enghraifft, Esgobaeth berthnasol at ddibenion gwybodaeth ac adrodd. O bryd i'w gilydd, bydd angen i ni rannu eich gwybodaeth gyda phobl a sefydliadau allanol. Byddwn ond yn gwneud hynny lle mae gennym sail gyfreithlon neu gyfreithiol dros wneud hynny ac yn unol â'n rhwymedigaethau o dan gyfreithiau diogelu	

			data. Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â	

	darparu data ystadegol er budd y cyhoedd ar gyfer HESA **Data Categori Arbennig** Pan gynhelir Gwiriadau DBS, maent yn rhan o broses gwneud penderfyniadau awtomatig yn unol ag Erthygl 22 o GDPR y DU. Monitro tarddiad hiliol neu ethnig; credoau crefyddol neu athronyddol; iechyd corfforol neu feddyliol (gan gynnwys manylion am unrhyw anabledd) Cyflawniad neu gyflawniad honedig unrhyw drosedd, gan gynnwys canlyniadau gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ('DBS') Data cyfeiriadedd rhywiol a data categori arbennig arall a gesglir at ddibenion HESA. **Buddiant cyfreithlon** Prosesu data		thrydydd partïon penodol sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan. Mae trydydd partïon o'r fath yn rhwym wrth drefniadau cytundebol gyda ni ein hunain yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data ac mae'n ofynnol iddynt gadw eich data personol yn ddiogel ac yn gyfrinachol. Gallant ond ei ddefnyddio fel y caniateir gennym yn unol â'n Polisïau Preifatrwydd a'n cytundebau prosesydd data: Esgobaethau a Phlwyfi Perthnasol yr Eglwys yng Nghymru Cyngor Archesgob Eglwys Lloegr, Prifysgol Durham, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ein partneriaid addysg yn narpariaeth cyrsiau Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) at ddibenion dadansoddi ystadegol Coleg Sir Gâr - sy'n gweinyddu Prentisiaethau. Canolfan Ddiwinyddol Westminster – Sy'n darparu meddalwedd CRM rheoli myfyrwyr. Swyddfa Myfyrwyr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) Cyllid Myfyrwyr Cymru a/neu Student Finance England	

	personol wrth ddefnyddio meddalwedd fideo-gynadledda			

	Prosesu data personol mewn perthynas ag offer teledu cylch cyfyng Ein buddiannau cyfreithlon penodol yw: Diogelu ein safle busnes. (Teledu cylch cyfyng) Diogelu ein gweithwyr ac ymwelwyr â'r safle. (Teledu cylch cyfyng) Cynorthwyo awdurdodau cyfreithlon i atal a chanfod troseddau. (Teledu cylch cyfyng) Hwyluso cyfathrebiadau fideo a thelathrebu effeithlon staff a myfyrwyr. (Fideogynadledda) Diogelu staff, myfyrwyr a chyfranogwyr eraill ar yr alwad rhag peryglon diangen teithio yn y byd go iawn. (Fideogynadledda) Cefnogi ein prif ddibenion addysg		Adrannau'r Llywodraeth e.e. y Swyddfa Gartref mewn perthynas â fisâu myfyrwyr Safleoedd lleoliadau gwaith Y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr i gadarnhau cofrestriad a phresenoldeb myfyrwyr, a phwy ydynt, i'w galluogi i gael mynediad at gwmnïau cymorth ariannol ac adennill a rheoli dyledion er mwyn adennill dyled ar ran yr Athrofa lle mae gweithdrefnau adfer dyledion mewnol wedi bod yn aflwyddiannus Asiantaethau'r DU sydd â dyletswyddau'n ymwneud ag atal a chanfod trosedd, casglu treth neu ddiogelu diogelwch cenedlaethol Darparwyr gwasanaeth canfod llên-ladrad 'Turn-it In'. Pobl eraill sy'n ein helpu i ddarparu ein gwefan, ein rhwydwaith WIFI mewnol, gan gynnwys arbenigwyr technoleg gwybodaeth sy'n dylunio a chynnal ein gwefan Ein hyswirwyr a'n broceriaid yswiriant Ecclesiastical Insurance sy'n rhoi yswiriant cynhwysfawr i ni. Cyrff a rheoleiddwyr proffesiynol megis JNC Ein cynghorwyr proffesiynol, gan gynnwys ein cyfrifwyr pan fydd ei angen arnynt i roi eu cyngor proffesiynol i ni. Yr Heddlu, awdurdodau	

			lleol, y llysoedd ac	

	a hyfforddiant effeithlon. (Fideogynadle dda)		unrhyw awdurdod arall y llywodraeth os yw'n gofyn i ni wneud hynny (ond dim ond os yw hynny'n gyfreithlon). Pobl eraill sy'n gwneud cais am fynediad at bwnc, lle caniateir i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith. Achwynwyr, lle bo hynny'n angenrheidiol i ymateb i unrhyw gwynion a dderbynnir. Lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i wneud hynny, e.e. i gydymffurfio â gorchymyn llys Darpar gyflogwyr mewn ymateb i geisiadau cyfeirio Sefydliadau addysgol, cyrff arholi, darparwyr cyrsiau Eich teulu neu eich cynrychiolwyr Atal	

D.S.: Rhaid i chi ddarparu'r categorïau data personol a ddynodir gan * uchod gan fod gennym ofyniad cyfreithiol neu gytundebol i gael a defnyddio'r wybodaeth neu ei bod yn angenrheidiol i ni gael yr wybodaeth er mwyn gallu ymrwymo i gontract gyda chi.

4. <u>Trosglwyddo eich Gwybodaeth yn Rhyngwladol</u>

4.1 Yn gyffredinol, nid ydym yn gweithredu y tu allan i'r Deyrnas Unedig nac yn trosglwyddo dim o'ch data personol y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ond efallai y byddwn yn cynnal cysylltiadau proffesiynol mewn gwledydd eraill, megis trefnu ymweliadau ag eglwysi a sefydliadau dysgu eraill ledled y byd.

4.2 Bydd unrhyw ddata a gwybodaeth bersonol a gesglir mewn unrhyw Wladwriaeth yn cael eu prosesu yn y DU.

4.3 Oherwydd gweithrediad y Rhyngrwyd a rhaglenni cyfrifiadurol eraill, gall data personol o dan ein rheolaeth drosglwyddo i wledydd y tu allan i'r DU.

4.4 Dim ond os oes mesurau diogelu digonol ar waith yn y wlad y trosglwyddir data iddi y byddwn yn trosglwyddo data personol y tu allan i'r DU.

4.5 Pan drosglwyddir data personol i drydedd wlad neu sefydliad rhyngwladol, byddwn yn sicrhau bod penderfyniad digonolrwydd neu awdurdod tebyg yn bodoli rhwng y DU a'r wlad neu'r ardal berthnasol.

4.6 Lle nad oes penderfyniad digonolrwydd yn bodoli a'n bod yn dibynnu ar ddarpariaethau Cymalau Cytundebol Safonol neu Reolau Corfforaethol Rhwymol, bydd tystiolaeth o'r mesurau diogelu a ddarperir ar gael ar gais.

4.7 Y Prif Sefydliad ar gyfer ein holl Brosesu Data yw'r DU.

4.8 Yr awdurdod goruchwylio arweiniol yw Cyfraith y DU a Swyddfa Comisiynwyr Gwybodaeth y DU, a'i chyfeiriad yw Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF.

5. Pa Hawliau Sydd Gennych o Dan y Gyfraith Diogelu Data

Eich hawliau	Beth mae hyn yn ei olygu	Beth yw ein rhwymedigaethau
Hawl i gael gwybod	Dyma'r hawl i wybod a ydym yn prosesu gwybodaeth amdanoch chi.	Yn amodol ar rai eithriadau, rhaid i ni ymateb i unrhyw geisiadau a wnewch i wybod a ydym yn prosesu eich data.
Hawl i gael mynediad	Dyma'r hawl i gael mynediad at eich Data Personol a gwybodaeth atodol amrywiol.	Rhaid i ni ddarparu copi o'ch Data Personol a'r wybodaeth atodol arall i chi heb ormod o oedi ac, mewn unrhyw achos, o fewn mis i dderbyn eich cais; Ni allwn godi tâl arnoch am wneud hynny, ac eithrio o dan amgylchiadau penodol (e.e. pan fyddwch yn gofyn am gopïau pellach o'ch data personol).
Hawl i gael cywiro data personol	Dyma'r hawl i gael cywiro eich Data Personol os yw'n anghywir neu'n anghyflawn.	Rhaid i ni gywiro unrhyw wybodaeth anghywir neu anghyflawn heb ormod o oedi ac, mewn unrhyw achos, o fewn mis i dderbyn eich cais; Os ydym wedi datgelu eich Data Personol i eraill, rhaid i ni (yn amodol ar rai eithriadau) gysylltu â'r derbynwyr i'w hysbysu bod angen cywiro eich data personol.

Hawl i ddileu	Dyma'r hawl i gael dileu eich data personol. Mae'r hawl hon yn berthnasol o dan rai amgylchiadau yn unig (megis pan nad oes angen y Data Personol arnom mwyach at y dibenion y cafodd ei gasglu).	Os yw'r hawl hon yn berthnasol, rhaid i ni ddileu eich Data Personol heb ormod o oedi ac, mewn unrhyw achos, o fewn mis i dderbyn eich cais; Os ydym wedi datgelu eich Data Personol i eraill, rhaid i ni (yn amodol ar rai eithriadau) gysylltu â'r derbynwyr i'w hysbysu bod rhaid dileu eich Data Personol.
	Mae gennym yr hawl i wrthod dileu eich data personol o dan rai amgylchiadau.	
Hawl i gludadwyedd data	Dyma'r hawl i gael ac ailddefnyddio eich Data Personol at eich dibenion eich hun; Mae'n cynnwys yr hawl i ofyn i'ch Data Personol gael ei drosglwyddo i sefydliad arall (lle bo hynny'n dechnegol ymarferol). Mae'r hawl hon yn berthnasol o dan amgylchiadau cyfyngedig yn unig. Yn dilyn cais yn ymwneud â Chludadwyedd Data, byddwn yn trosglwyddo'r data personol perthnasol i wrthrych y data neu ei reolydd data enwebedig lle mae'n bosibl ac yn dechnegol ymarferol i ni wneud hynny.	Os yw'r hawl hon yn berthnasol, rhaid i ni ddarparu eich Data Personol i chi ar ffurf strwythuredig a ddefnyddir yn gyffredin ac sy'n rhesymol o ran peiriannau. Rhaid i ni weithredu heb ormod o oedi ac, mewn unrhyw achos, o fewn mis i dderbyn eich cais; Ni allwn godi tâl arnoch am y gwasanaeth hwn.

Hawl i wrthwynebu	Dyma'r hawl i wrthwynebu i'r defnydd o'ch Data Personol. Mae'r hawl yn berthnasol o dan rai amgylchiadau penodol yn unig. Gallwch ddefnyddio'r hawl hon i herio ein defnydd o'ch Data Personol yn seiliedig ar ein buddiannau cyfreithlon; Gallwch ddefnyddio'r hawl hon hefyd i wrthwynebu i'r defnydd o'ch Data Personol ar gyfer marchnata uniongyrchol	Os ydych yn gwrthwynebu i'r defnydd o'ch Data Personol ar gyfer marchnata uniongyrchol, rhaid i ni roi'r gorau i ddefnyddio eich Data Personol fel hyn cyn gynted ag y byddwn yn derbyn eich cais. Os ydych yn gwrthwynebu i'ch Data Personol gael ei ddefnyddio mewn ffyrdd eraill, bydd p'un a oes rhaid i ni roi'r gorau i ddefnyddio eich Data Personol yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol.
Hawl i wrthwynebu i wneud penderfyniadau yn awtomatig	Dyma'r hawl i beidio â bod yn destun penderfyniad a wneir ar sail prosesu eich Data Personol yn awtomatig lle bydd y penderfyniad dan sylw yn cael effaith gyfreithiol neu effaith sylweddol debyg arnoch.	Pan wneir penderfyniad o'r fath, rhaid i chi gael gwybod am y ffaith honno cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol; Yna mae gennych 21 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad i ofyn am i'r penderfyniad gael ei ailystyried neu am i benderfyniad gael ei wneud nad yw'n seiliedig ar brosesu awtomatig yn unig;

	Efallai y byddwn yn gwneud penderfyniadau awtomatig amdanoch os yw'n angenrheidiol ar gyfer ymrwymo i Gontract gyda chi neu lle rydych yn cydsynio i'r camau hynny.	Rhaid i ni gydymffurfio â'ch cais o fewn 21 diwrnod.
Hawl i gyfyngu ar brosesu	Dyma'r hawl i 'rwystro' neu atal prosesu eich Data Personol. Mae'r hawl hon yn berthnasol o dan amgylchiadau amrywiol, gan gynnwys pan fyddwch yn herio cywirdeb eich gwybodaeth).	Os yw'n ofynnol i ni gyfyngu ar brosesu eich Data Personol byddwn yn gallu ei storio ond ni fyddwn yn ei ddefnyddio fel arall. Byddwn ond yn cael cadw digon o wybodaeth amdanoch i sicrhau bod y cyfyngiad yn cael ei barchu yn y dyfodol. Os ydym wedi datgelu eich Data Personol i eraill, rhaid i ni (yn amodol ar rai eithriadau) gysylltu â nhw i ddweud wrthynt am y cyfyngiad ar ddefnydd.

Buddiannau Cyfreithlon *Data o ffynonellau heblaw Gwrthrych y Data.*	Os yw'r prosesu'n seiliedig ar Fuddiannau Cyfreithlon, mae gennych yr hawl i wybod beth yw'r Buddiannau Cyfreithlon ac i bwy y maent yn perthyn. Dim ond ar ôl cynnal prawf tair rhan i sicrhau bod hawliau gwrthrych y data'n cael eu diogelu'n iawn y defnyddir y sail gyfreithlon hon. Os ydym yn prosesu data amdanoch ond nad ydym wedi cael y data yn bersonol gennych chi, rhaid i ni roi'r wybodaeth a ddisgrifir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn i chi a rhywfaint o wybodaeth ychwanegol. Mae gennych yr hawl i wybod ffynhonnell yr wybodaeth ac a yw'r ffynhonnell ar gael i'r cyhoedd.	Mae rhai eithriadau i'r rheol gwybodaeth ychwanegol. Os byddwn yn cael eich Data Personol o ffynhonnell heblaw chi eich hun, bydd y rheolau gwybodaeth ychwanegol yn berthnasol oni bai:- Bod yr wybodaeth ynglŷn â'n prosesu gyda chi eisoes; neu y byddai'n cymryd ymdrech anghymesur neu ei bod yn amhosibl ei darparu i chi; neu eich bod eisoes wedi'ch diogelu'n gyfreithiol o dan ddarpariaethau ar wahân; neu fod dyletswydd gyfreithiol arnom i beidio â'i datgelu.

6. Ffioedd sy'n daladwy i arfer eich hawliau diogelu data.

6.1 Fel arfer, ni fydd rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad at eich Data Personol (nac i arfer unrhyw un o'r hawliau eraill).

6.2 Cyn gynted ag y byddwn yn fodlon pwy ydych chi, byddwn yn anfon y Data Personol sydd gennym amdanoch atoch, yn ddi-oed ac, mewn unrhyw achos, o fewn mis, y mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ni ei darparu.

6.3 Os bydd angen mwy o amser arnom i gasglu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, byddwn yn rhoi gwybod i chi yn ddi-oed ac, mewn unrhyw achos, o fewn mis i dderbyn eich cais.

6.4 Efallai y bydd ffi yn daladwy am wasanaethau Mynediad at Ddata os yw'r cais/ceisiadau'n amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol neu'n ailadroddus eu natur. Fel arall, efallai y byddwn yn dewis anwybyddu'r math hwn o gais. Yn yr achosion hyn, byddwn yn eich hysbysu o'n penderfyniad ac, os yn berthnasol, unrhyw ffi y gallai fod ei hangen.

7. Gwybodaeth am bwy ydych chi y gallai fod ei hangen arnom

7.1 Efallai y bydd angen i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych i'n helpu i gadarnhau pwy ydych chi ac i sicrhau eich hawl i gael mynediad at yr wybodaeth (neu i arfer unrhyw un o'ch hawliau eraill).

7.2 Mesur diogelwch priodol arall yw hwn i sicrhau nad yw Data Personol yn cael ei ddatgelu i unrhyw berson nad oes ganddo'r hawl i'w dderbyn.

8. Data plant

8.1 Nid yw ein gwefan wedi'i bwriadu ar gyfer plant ac ni ddylent gael mynediad ati.

8.2 Ni fyddwn yn casglu gwybodaeth gan bobl dan 13 oed yn fwriadol heb ganiatâd eu rhiant neu warcheidwad.

8.3 Os yw rhiant neu warcheidwad person dan 13 oed yn darganfod bod ei blentyn wedi ymgysylltu â'n Gwefan heb ei ganiatâd, rhowch wybod i ni ar unwaith gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir isod.

8.4 Rydym wedi ystyried elfennau'r Cod Dylunio Priodol i Oedran (AADC) mewn perthynas â'n gweithgarwch ar-lein ac wedi dod i'r casgliad nad ydym yn Wasanaeth Cymdeithas Wybodaeth (ISS) berthnasol sy'n debygol o gael ei ddefnyddio gan blant.

8.5 Nid oes unrhyw beth ar ein gwefan a allai fod yn niweidiol i blant sy'n gweld y tudalennau neu'r lluniau.

8.6 Mae'r wybodaeth am ein cynhyrchion a/neu wasanaethau megis Cyrsiau Addysgol ar ein Gwefan yn berthnasol i oedolion dros 18 oed yn unig.

8.7 Yn ogystal, rydym yn diogelu hawliau'r plentyn yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r AADC drwy sicrhau na ellir gwneud unrhyw daliadau ar ein gwefan.

9. Cywirdeb Data Personol

9.1 Os bydd unrhyw rai o'ch manylion personol yn newid yn ystod eich cwrs, dylech gysylltu â'r Rheolwr Gweithrediadau i'w hysbysu a rhoi'r wybodaeth gywir ddiweddaraf iddo.

10 Lle i Gael Rhagor o Wybodaeth am Eich Hawliau neu i Wneud Cwyn

10.1 Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rheoleiddio materion diogelu data a phreifatrwydd yn y DU. Maent yn sicrhau bod llawer o wybodaeth ar gael ar eu gwefan ac yn sicrhau bod manylion cofrestredig yr holl reolwyr data fel ni ar gael i'r cyhoedd. Gallwch gael mynediad atynt yma www.ico.org.uk

10.2 Gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar unrhyw adeg am y ffordd rydym yn defnyddio eich gwybodaeth. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio y byddech yn ystyried codi unrhyw fater neu gŵyn sydd gennych gyda ni yn gyntaf. Byddwn yn gwneud ein gorau glas bob amser i ddatrys unrhyw broblemau sydd gennych.

11. Gwefannau Trydydd Parti

11.1 O bryd i'w gilydd, gall ein gwefan gynnwys dolenni i ac o wefannau ein cyflenwyr neu wefannau trydydd parti eraill.

11.2 Os byddwch yn ymweld ag unrhyw un o'r gwefannau hyn, dylech gadarnhau bod ganddynt eu polisïau preifatrwydd eu hunain a dylech wirio'r rhain cyn cyflwyno unrhyw ddata personol ar eu gwefan. Ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd am y polisïau ar unrhyw Wefannau eraill.

12. Cysylltu â ni

12.1 Mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod eich gwybodaeth ar unrhyw adeg.

12.2 Ein henw llawn yw Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru. Rydym yn defnyddio'r brandio “Athrofa Padarn Sant” neu “Padarn Sant” ar gyfer ein gweithrediadau addysgol a hyfforddiant.

12.3 Ni yw rheolydd data yr wybodaeth rydych yn ei darparu i ni. Mae'r term “rheolydd data” yn ymadrodd cyfreithiol a ddefnyddir i ddisgrifio'r person neu'r endid sy'n rheoli'r ffordd y caiff gwybodaeth ei defnyddio a'i phrosesu.

12.4 Mae Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru fel Athrofa Padarn Sant wedi'i Gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan gyfeirnod Z6056416.

12.5 Rydym wedi penodi Swyddog Diogelu Data i oruchwylio cydymffurfiaeth â'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn neu sut rydym yn trin eich data personol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data yng Nghorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, 2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd CF10 5BT neu dataprotection@churchinwales.org.uk

13. Diweddariadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn

13.1 Rydym yn adolygu'r ffyrdd rydym yn defnyddio eich gwybodaeth yn rheolaidd. Wrth wneud hynny, efallai y byddwn yn newid pa fath o wybodaeth rydym yn ei chasglu, sut rydym yn ei storio, gyda phwy rydym yn ei rhannu a sut rydym yn gweithredu arni.

13.2 O ganlyniad, bydd angen i ni newid yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd i'w gadw'n gywir ac yn gyfredol. Byddwn yn adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gywir ac yn gyfredol.

13.3 Cyfrifoldeb yr ymwelydd unigol â'n Gwefan yw sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf ganddo am newidiadau i'r polisi hwn.